# IS-BWYLLGOR CRAFFU HAMDDEN A DIWYLLIANT

**(Via Microsoft Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Iau, 16 Rhagfyr 2021** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.H.Reynolds** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd** |
| **Cynghorwyr**: | D.Keogh, S.Miller, S.Renkes, J.Hale a/ac J.Jones |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | PWalker, Jones, Thomas, T.Davies a/ac C.John |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr P.A.Rees |

---

1. **CYNLLUN CENEDLAETHOL I ATGYFEIRIO CLEIFION I WNEUD YMARFER CORFF**

Derbyniodd yr aelodau gyflwyniad PowerPoint yn ymwneud â'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cyflwynwyd clip rhithwir yn y cyfarfod a oedd yn dangos y gwaith yr oedd y tîm wedi'i gyflawni i gadw'r rheini'n heini yn ystod COVID-19.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw gyfraddau consesiynol. Eglurodd swyddogion bod y gyfradd wedi'i gosod ar £2 oherwydd canllawiau cenedlaethol. Eglurodd swyddogion eu bod yn gwneud eu gorau glas i sicrhau bod y pris yn aros ar gyfradd deg.

Cafwyd trafodaethau ynghylch lleoliad y dosbarthiadau. Eglurodd swyddogion eu bod yn ceisio'u cadw yn y prif ardaloedd canolog yng Nghastell-nedd Port Talbot er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad i ddosbarth.
Canmolodd yr aelodau waith y tîm a diolchwyd i'r swyddogion am eu holl waith.

Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr Aelodau'r cyflwyniad

2. **DATA RHEOLI PERFFORMIAD CHWARTEROL 2021-2022 - PERFFORMIAD CHWARTER 2 (1 EBRILL 2021 - 30 MEDI 2021)**

Rhoddwyd data rheoli perfformiad chwarter 2 i'r aelodau, am y cyfnod o 1 Ebrill 2021 i 30 Medi 2021 ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes mewn perthynas â Hamdden a Diwylliant, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Amlygodd yr aelodau eu dealltwriaeth o'r pwysau yr oedd swyddogion wedi'i ysgwyddo yn ystod y cyfnod digynsail hwn a chanmolasant eu hymdrechion i gadw'r gwasanaeth i fynd dan amgylchiadau mor anodd gyda chyfyngiadau COVID-19. Adlewyrchwyd y rhain yn y dangosyddion perfformiad.

Gofynnwyd a fyddai modd cymhwyso cyfradd gonsesiynol i gynyrchiadau Luminate i sicrhau nad yw teuluoedd yn colli’r cyfle i fynd i’r digwyddiad oherwydd y gost. Sicrhaodd y swyddogion yr Aelodau y byddent yn trafod hyn â Phrif Weithredwr Luminate.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

3. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nodwyd y Blaenraglen Waith ar gyfer 2021/22 yn amodol ar ychwanegu diweddariad ar Barc Margam mewn cyfarfod yn y dyfodol.

4. **EITEMAU BRYS**

Cododd Aelod y Cabinet ymholiad a oedd yn ymwneud â Chlwb Chwaraeon yr oedd angen safle arnynt i'w ddefnyddio. Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn codi hwn ac yn ymateb i'r clwb chwaraeon y tu allan i'r cyfarfod.

**CADEIRYDD**